




**SENEDD!**



# **Syniadau**

**Senedd**

**4/11/2019**

## Tryloywder o ran buddsoddiadau a gallu myfyrwyr i bleidleisio

Tryloywder o ran buddsoddiadau'r Brifysgol a gallu myfyrwyr i bleidleisio.

**Swyddog Gyfrifol:** Llywydd yr Undeb

**Cyflawnwyd Gan:** Ruth Hogg

---

### Manylion:

Dylai buddsoddiadau'r Brifysgol fod yn gwbl dryloyw. Yn ddelfrydol, byddai hyn yn golygu y byddent yn cael eu rhestru'n fanwl ar Wefan Prifysgol Aberystwyth. Dylai myfyrwyr allu pleidleisio ynghylch pa gwmnïau y mae'r brifysgol yn buddsoddi ynddynt, a dylid trafod a llunio polisi buddsoddi moesegol.

## Gwelliant i'r Syniad "Tryloywder o ran buddsoddiadau a gallu myfyrwyr i bleidleisio"

Cynnal pleidlais ar wahân dros dryloywder buddsoddi a gallu pleidleisio i fyfyrwyr

**Cyflawnwyd Gan:** Sivert Hellvik Havso

---

### Manylion:

Dylai'r mater o allu pleidleisio fod yn ddadl/pleidlais ar wahân i fater tryloywder buddsoddi a pholisi buddsoddi moesegol. Byddai pasio'r gwelliant hwn yn caniatáu i'r Senedd bleidleisio ar wahân ar y rhannau canlynol cyn cael ei chynnwys yn y polisi terfynol:

1. Dylai buddsoddiadau'r Brifysgol fod yn gwbl dryloyw. Yn ddelfrydol, byddai hyn yn golygu y byddent yn cael eu rhestru'n fanwl ar Wefan Prifysgol Aberystwyth.
2. Dylai myfyrwyr allu pleidleisio ynghylch pa gwmnïau y mae'r brifysgol yn buddsoddi ynddynt, a dylid trafod a llunio polisi buddsoddi moesegol.



## Cynnal Gŵyl Gelfyddyd Prifysgol Aberystwyth!

Cynnal Gŵyl Gelfyddyd Prifysgol Aberystwyth a gynhelir gan Undeb y Myfyrwyr i ddod â myfyrwyr a chymdeithasau sydd wedi'u dadrithio yn nes at Undeb y Myfyrwyr, rhoi cyfle arall i gymdeithasau chwarae mwy o ran a dathlu / cynrychioli'r celfyddydau ar y campws yn ogystal â chwaraeon.

**Swyddog Gyfrifol:** Swyddog Cyfleoedd

**Cyflawnwyd Gan:** Iris Kalian

---

### Manylion:

Mae Undeb y Myfyrwyr yn cynnal amryw o ddigwyddiadau chwaraeon, er enghraifft Superteams a Rhyngolgampau Farsiti, ond nid oes llawer o ddigwyddiadau sy'n canolbwyntio ar Gymdeithasau, a llai fyth yn ymwneud â'r celfyddydau. Rydym yn sylweddoli bod Her Aber yn canolbwyntio mwy ar gymdeithasau, fodd bynnag yn achos y celfyddydau, mae cyfle i fyfyrwyr arddangos eu gwaith eu hunain a dathlu'r gwaith hwnnw (cerddoriaeth, ffilm, drama, dawns, crefftiau a.y.b.) drwy berfformio ac arddangos, yn rhywbeth y byddem yn ei groesawu, gan greu cryn gyffro i'r mwyafrif o gymunedau ac unigolion artistig. Er ei bod yn annheg cymharu timau chwaraeon a chymdeithasau mewn ffordd mor ddu a gwyn, dyma sut mae Undeb y Myfyrwyr yn cael ei ystyried yn aml gan fwyafrif y myfyrwyr yr wyf yn eu hadnabod beth bynnag, p'un ai oes ganddyn nhw ffocws artistig neu beidio.

Byddai Gŵyl Gelf nid yn unig yn dod â myfyrwyr a chymdeithasau artistig a chreadigol Aberystwyth yn nes at Undeb y Myfyrwyr ac yn dileu unrhyw ddadrithiad a allai fod, ond byddai hefyd yn denu aelodau o'r cyhoedd i arddangos eu gwaith yn yr un modd a mwynhau a gwerthfawrogi celf a chreadigrwydd yn ogystal.

Wrth eu hastudio'n academiaidd, mae'r celfyddydau'n gallu lleddfu pryder ac yn helpu gyda phroblemau iechyd meddwl fel iselder. Mae mwy i'r celfyddydau na hobi y mae pobl yn ei wneud yn ogystal ag astudiaethau a gwaith; maent yn rhan bwysig o fywyd modern, gan gynnwys materion modern ac felly dylid eu cynrychioli a'u dathlu yn yr un modd.

Yn ddelfrydol, gallai'r digwyddiad hwn gynnwys arddangosfa yn ystod y dydd, a pherfformiad gyda'r nos gan gymdeithasau ac unigolion sy'n barod i arddangos eu creadigrwydd a'u celf; efallai hyd yn oed ychydig o weithdai cyhoeddus wedi'u rhedeg gan gymdeithasau sy'n fodlon cymryd rhan. Dim ond newydd ei ffurfio mae'r syniad; os caiff ei dderbyn gan y Senedd yna gellir mireinio manylion pellach.

Yn ddelfrydol, gallai llywyddion cymdeithasau creadigol / artistig a'r Swyddog Cyfleoedd weithio gyda'i gilydd i gynnal y digwyddiad hwn, neu gellid ffurfio pwyllgor myfyrwyr yn benodol ar gyfer y digwyddiad.



## Gofal iechyd i'n myfyrwyr Traws

Mae cyrchu gofal iechyd priodol fel myfyriwr traws yn frawychus, yn anodd ac yn hollol ddryslyd; gallwn wneud mwy i helpu.

**Swyddog Gyfrifol:** Swyddog Llesiant

**Cyflawnwyd Gan:** Lyra J Hawkins

---

### Manylion:

Mae myfyrwyr Trawsryweddol yn wynebu llawer o anawsterau yn ystod eu profiad prifysgol. Mae cyrchu gofal iechyd sy'n gysylltiedig â'u trawsnewid, a'r llwybr i'w ddilyn, yn gymhleth ac yn ddryslyd i'w lywio. Mae hyn yn cael ei ddwysáu gan y ffaith bod gwahanol wasanaethau meddygon teulu a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol â barn wahanol ar y ffordd gywir i brosesu'r myfyrwyr hyn.

Hoffwn i UMAber wynebu rhai o'r anawsterau hyn drwy fynd at yr adran Cymorth i Fyfyrwyr, y Brifysgol a gwasanaethau meddygon teulu lleol i'w haddysgu ar y ffyrdd cywir o drin achosion o'r fath ac i symleiddio'r broses o gyrchu gofal iechyd yn effeithiol. Bydd hyn hefyd yn cynnwys ffyrdd priodol o drin agweddau eraill ar fywyd myfyrwyr Traws sy'n ymwneud â'u llesiant cyffredinol (megis gwasanaethau newid enwau a newid rhywedd, a chael mynediad at ofal iechyd preifat os dymunir)

## Ymgyrch Rhydd o Slaf dai

Rhaid i'r Brifysgol ymgysylltu â mudiad Electronics Watch a chwblhau archwiliad llawn o'u cadwyn gyflenwi i sicrhau bod y gadwyn gyflenwi yn rhydd o lafur slaf dai.

**Swyddog Gyfrifol:** Llywydd yr Undeb

**Cyflawnwyd Gan:** Dhan Ramnatsing

---

### Manylion:

Noda'r Undeb hwn:

1. Bod y diwydiant electroneg byd-eang yn ddiwydiant risg uchel o ran caethwasiaeth fodern.
2. Bod Deddf Caethwasiaeth Fodern y DU (2015) yn ceisio mynd i'r afael â chaethwasiaeth, llafur gorfodol a masnachu mewn pobl sy'n digwydd heddiw. Ar 29 Hydref 2015, daeth darpariaethau tryloywder cadwyni cyflenwi'r Ddeddf (adran 54) i rym. Mae'r darpariaethau'n gorfodi sefydliadau masnachol a sefydliadau er budd y cyhoedd, gan gynnwys prifysgolion, i gyhoeddi datganiad sy'n nodi'r camau y mae'r sefydliad wedi'u cymryd i sicrhau nad yw caethwasiaeth na masnachu mewn pobl yn digwydd yn unrhyw un o'i gadwyni cyflenwi nac mewn unrhyw ran o'i fusnes ei hun. Yn aml, cyfeirir at hyn fel "datganiad gwrth-gaethwasiaeth".
3. Yn ôl y Sefydliad Llafur Rhyngwladol, mae tua 25 miliwn o ddynion, menywod a phlant ar draws y byd mewn ffurf o lafur gorfodol. Ledled y byd, mae 5.4 o gaethweision modern ar gyfer pob 1,000 o bobl, ac mae 1 o bob 4 sy'n dioddef caethwasiaeth fodern yn blant.i
4. Mae'r diwydiant electroneg yn ddiwydiant risg uchel o ran caethwasiaeth fodern. Yn anffodus, mae'r amodau hyn yn gyffredin yn y diwydiannau electroneg a thechnoleg, mwynloddio a chludiant llongau.
5. Mudiad monitro hawliau llafur Ewrop-gyfan yw Electronics Watch, sy'n cynnal ymchwiliadau o amodau gwaith mewn ffatrioedd ledled y byd. Eu prif ffocws yw arferion llafur mewn ffatrioedd sy'n gwneud nwyddau electroneg
6. Ers ei ffurfio yn 2013, mae 52 o Brifysgolion y DU wedi ymaelodi ag Electronics Watch, gan gynnwys pob Prifysgol a ariennir yn gyhoeddus yn yr Alban.
7. Mae hyn yn golygu bod yr holl gyflenwyr nwyddau electroneg i'r Prifysgolion hynny bellach yn cael eu monitro am arferion hawliau llafur yn eu cadwyni cyflenwi.



8. Er bod hwn yn gam gwych ymlaen, mae ein Prifysgol hefyd yn prynu llawer iawn o gyfarpar electroneg.

Creda'r Undeb hwn:

1. Y dylai ein Prifysgol hefyd fonitro ei chadwyni cyflenwi.
2. Mae'r ffaith bod prifysgolion wedi ymaelodi ag EW wedi galluogi gweithwyr i gael sawl llwyddiant mawr wrth amddiffyn eu hawliau.
3. EW yw'r unig sefydliad monitro credadwy ymysg gweithwyr a'u mudiadau, ac y mae wedi ymrwmo'n benodol i fonitro cadwyni cyflenwi prifysgolion ac awdurdodau cyhoeddus.
4. Po fwyaf o brifysgolion sy'n dod yn aelodau, mwyaf yn y byd fydd pwysau cyfunol y prynwyr wrth ddelio â cham-driniaeth hawliau llafur yn y sector electroneg.
5. Dylai'r Brifysgol ymaelodi ag EW.

Penderfyna'r Undeb hwn:

1. Mandadu'r Tîm Swyddogion Llawn-amser i lobio'r Brifysgol i ymaelodi ag EW.
2. Mandadu'r Tîm Swyddogion Llawn-amser i wneud cais am gynrychiolaeth myfyrwyr ar holl bwyllgorau prynu'r Brifysgol.
3. Mandadu'r cynrychiolwyr myfyrwyr sy'n eistedd ar bwyllgorau prynu i bwysu am ymaelodi ag EW.
4. Mandadu pob cynrychiolydd myfyrwyr sy'n eistedd ar y pwyllgorau prynu i ddwyn pwysedd ar reolwyr caffael y Brifysgol i brynu offer electroneg mwy moesegol a mwy cynaliadwy.

i Cyfeirnod: Sefydliad Llafur Rhyngwladol, Llafur dan orfodaeth, caethwasiaeth fodern a'r fasnach mewn pobl, <http://www.ilo.org/global/topics/forced-labour/lang--en/index.htm>

ii Cyfeirnod: Electronics Watch, <http://electronicswatch.org/en>

## Cynnig Cynhadledd Ryddhad UCM

Mae addysg rhyw a pherthnasoedd yn newid; hoffwn ddwyn y mater hwn i sylw UCM ar ran UMaber er mwyn sicrhau'r newid hwn er gwell.

**Swyddog Gyfrifol:** Llywydd yr Undeb

**Cyflawnwyd Gan:** Mark Marshall

---

### Manylion:

Eleni mae'r llywodraeth yn newid sut mae addysg perthnasoedd LHDT yn cael ei dysgu mewn ysgolion â Deddf RSE 2020 (Addysg Rhyw a Pherthnasoedd) Mae'r ddeddf yn canolbwyntio'n bennaf ar sicrhau bod addysg rhyw amrywiol a chyfartal yn cael ei chyflwyno ym mhob ysgol yn ôl y gyfraith. Fodd bynnag, mae'r ddeddf hefyd yn nodi bod addysg Perthynas LHDT hefyd yn ofniad.

Er bod hwn yn newid mawr, mae gan y polisi arfaethedig ar hyn o bryd ddiffyg manylder a mesurau diogelu, sy'n peri rhywfaint o ofid; o ran sut y bydd y rhan LHDT yn cael ei dysgu, gyda'r unig fanylion yn ymwneud â'r adlach homoffobig a thrawsffobig. Yn amlwg, mae'r rhain yn feysydd allweddol, ond mae angen llawer mwy o waith ar y polisi, gan fod disgwyl iddo gael ei weithredu fis Medi nesaf.

Fel cenhedlaeth o fyfyrwyr LHDT+ a fethwyd gan y system ysgolion mae'n hanfodol fod hyn yn cael ei wneud yn iawn y tro hwn. Er mwyn sicrhau bod myfyrwyr y dyfodol yn cael yr addysg na chaniatawyd i ni ei chael. Gydag athrawon heb syniad o ran sut y disgwylir iddynt gyflwyno'r addysgu, a'r potensial i niweidio lles myfyrwyr LHDT+ os caiff hyn ei wneud yn anghywir. Hefyd y posibilrwydd o fethu meysydd addysgu hanfodol megis pwysigrwydd rhagenwau: neu ddim eisiau dysgu rhai meysydd fel addysg ryw Cwiâr. Neu i ddysgu un maes yn unig o'r pwnc amrywiol hwn gan eithrio eraill. I fynd i'r afael â hyn, byddaf yn awgrymu cynllun gweithredu i UCM ei ddilyn; awgrymaf y meysydd targed canlynol iddynt weithio arnynt:

Gwnewch yn sicr fod yr addysg, os yw'n cael ei dysgu, o ansawdd uchel. Beth mae hyn yn ei olygu yw y bydd gan athrawon Faes Llafur manwl i'w ddilyn, nid dim ond yr awgrymiadau annelwig a gynigir ar hyn o bryd. Mae hyn yn cynnwys adnoddau addysgu sy'n hygyrch mewn sawl ffurf a.y.b. Fideo a gwerslyfrau. Gydag enghreifftiau nid dim ond o un maes a.y.b. Dylid cynnwys lleiafrifoedd, gan osgoi canolbwyntio ar un maes yn unig. Er enghraifft, mewn ysgolion cynradd wrth ddysgu am amrywiaeth teuluol, bydd yn cynnwys partneriaethau dynion a menywod. Os caiff addysg Rhywedd ei dysgu, gwnewch yn siŵr bod athrawon yn ymwybodol ac yn hysbys am faterion Traws neu feysydd llai cydnabyddedig (megis rhywioldeb)

Atebolrwydd i'r gymuned a myfyrwyr LHDT. Fod hyn yn cael ei berfformio i safon uchel, a bod hyfforddiant priodol a chanllawiau pellach wedi'u sefydlu.

Drwy geisio mandad y Senedd, byddaf wedyn yn gallu cael mandad corff y myfyrwyr, sy'n ofynnol i gyflwyno'r cynnig hwn yn y gynhadledd.

Byddaf hefyd yn awgrymu cynllun gweithredu ar gyfer UCM, megis cael yr Is-lywydd Addysg i weithio'n uniongyrchol gydag undebau'r athrawon, Stonewall a'r Adran Addysg.